

**Hyrwyddo  
cydraddoldeb  
a chyfiawnder  
cymdeithasol  
ym maes tai  
yng Nghymru**

*Byddwch yn rhan o  
fudiad i wneud Cymru'n  
lle tecach i fyw!*

**tai pawb**

Aelodaeth a Chefnogaeth 2020–21

**Cefnogwyr  
Masnachol**

[www.taipawb.org/](http://www.taipawb.org/)@TaiPawb

# Buddiannau

Wedi'u cynnwys yn eich aelodaeth, am ddim

**Gwerth £556!\***

Mynediad diderfyn at ein Llinell Gymorth i'ch holl aelodau staff



Presenoldeb diderfyn yn Rhwydwaith Cydraddoldeb Tai Cymru



Mynychu ein rhwydwaith menopos i aelodau'n unig



Briffio ar wybodaeth benodol i'r sector ynghylch **Materion Menopos** yn y Gweithle



Diweddariadau **ebost chwarterol** ar y datblygiadau diweddaraf ym maes tai a chydraddoldeb



Mynediad gyda **chyfrinair** at amrywiaeth eang o adnoddau ar gyfer aelodau'n unig ar ein gwefan



Cynnwys eich **logo** ar ein gwefan

**Arbedwch £200!\***



Briffio Arfer **Da** manwl ar bynciau penodol



Stondin arddangos a **hysbyseb chwarter tudalen** yn ein cynhadledd flynyddol i gefnogwyr masnachol pris llawn (ffioedd mynychu yn berthnasol)



Disgownt **25%** ar unrhyw rai o'n cyrsiau hyfforddiant, boed y rheiny'n rhai mewnol



Defnydd o'n logo '**Cefnogwr Masnachol o Tai Pawb**' i arddangos eich ymroddiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth ym maes tai yn gyhoeddus

**Arbedwch £245!\***



Disgownt **25%** ar ymgynghoriaeth wedi'i deilwra

**Arbedwch £75!\***



Disgownt **20%** ar holl sesiynau briffio a seminarau Tai Pawb

**Arbedwch £40!\***



Disgownt **20%** ar fynychu ein cynhadledd flynyddol – yr unig gynhadledd ar dai a chydraddoldeb yng Nghymru

**Arbedwch £90!\***



Disgownt **20%** ar ein holl gyfleoedd noddi/arddangos

\* Seilir y ffigurau ar ddefnydd nodweddiadol – mae'r gwerth yn cynyddu po fwyaf y defnyddiwrch ein gwasanaethau

# Fel elusen a mudiad aelodaeth, rydym yn gweithio yn gadarnhaol ac yn adeiladol gyda'n haelodau a rhanddeiliaid allweddol eraill ledled Cymru i hybu cydraddoldeb a lleihau rhagfarn, gwahaniaethu a gwthio pobl i'r cyrion ym maes tai.

Mae ein haelodau yn goleuo ac yn cefnogi ein gwaith fel dylanwadwyr ac arweinwyr agweddau, ac maent yn elwa o gefnogaeth, rhwydweithio a gwasanaethau o ansawdd dda trwy ein buddiannau aelodaeth, i'ch helpu i gwrdd â'ch gofynion cyfreithiol yn ôl Deddf Cydraddoldeb 2010 a Rhentu Doeth Cymru, yn cynnwys Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus pan fyddwch yn cynnal gwaith ar ran cymdeithasau tai ac awdurdodau lleol.

Maent yn ymatebol bob amser – nhw yw'r bobl iawn i wneud y gwaith".  
*(Landlord preifat)*

Mae bod yn gefnogwr o Tai Pawb yn galluogi sefydliadau masnachol i anfon neges glir i bawb y maent yn gweithio gyda hwy, neu am ennill contractau gyda hwy, bod cydraddoldeb ac amrywiaeth yn flaenoriaeth iddynt a'u bod yn defnyddio cefnogaeth arbenigol i'w helpu i wella'n barhaus fel sefydliad cynhwysol ac amrywiol.

## Rhagor o fuddiannau

- Cyfleoedd i arddangos eich arfer da o ran cydraddoldeb i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, llywodraeth leol a chenedlaethol a'r gymdeithas yn ehangach
- Cyfleoedd i arloesi gyda'n syniadau a datrysiadau a gweithio gyda Tai Pawb ar y materion cydraddoldeb tai rydych yn angerddol drostynt
- Arwain y gad wrth ddysgu am ddatblygiadau polisi neu ddeddfwriaeth ar faterion cydraddoldeb a sut maent yn effeithio ar faterion tai

Heb ein haelodau, ni allai Tai Pawb:

- Dylanwadu ar lunwyr polisi i wneud polisi tai yn decach
- Hyrwyddo cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol yn y sector tai yng Nghymru
- Datblygu ein gwasanaethau i ddiwallu anghenion y sector

Mae'r ffioedd aelodaeth i'w gweld ar y dudalen gefn

